**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 19 Gorffennaf 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 drwy wneud y newidiadau canlynol:

Newidiadau i'r rhestrau Coch, Oren a Gwyrdd

- Ychwanegu Cuba, Indonesia, Myanmar a Sierra Leone at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau
- Dileu Ynysoedd Baleares ac Ynysoedd Prydeinig y Wyryf oddi ar y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau a'u hychwanegu at y "rhestr oren"
- Ychwanegu Croatia, Bwlgaria, Hong Kong a Taiwan at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau

Cynnwys darpariaeth i ddigwyddiadau penodol ddefnyddio darparwyr profion preifat ar gyfer profion gorfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dileu’r gofyniad i gael prawf PCR ar ddiwrnod 8 a’r gofyniad i hunanynysu ar gyfer preswylwyr o’r DU sydd wedi cael dos llawn o’r brechlyn; plant o dan 18 oed; a phobl sydd wedi cymryd rhan mewn treialon brechlyn ac sydd wedi cyrraedd o wlad ar y rhestr oren. Gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol o ganlyniad i’r newidiadau hyn, gan gynnwys gofynion profi’r gweithlu.

Mae’r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bersonau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020 er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth y mae angen i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn ac yn ystod teithio yn adlewyrchu’r newidiadau a wnaed gan y rheoliadau hyn.

Trwy beidio â chydymffurfio â’r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â’r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services